Sut i Ddatgloi Potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Llyn Tegid, Y Bala © APCE/SNPA

MANCELL GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

SOCIAL VALUE CYMRU

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Deall Gwerth Cymdeithasol Llesiant er mwyn Trawsnewid yr hyn a Gyflenwir i'r Cyhoedd

RHAGAIR

Mae Social Value UK yn rhan o sefydliad aelodaeth rhyngwladol, Social Value International, ac rydym yn credu, er mwyn creu byd lle mae anghydraddoldeb cymdeithasol a dirywiad amgylcheddol yn cael eu lleihau a'u dileu yn y diwedd, mae angen i ni newid y modd y mae'r byd yn rhoi cyfrif am werth.

Dros amser, o fewn cyfrifyddu ariannol, mae amryw ddeddfwriaeth, safonau a phrosesau wedi datblygu sy'n caniatáu i fuddsoddwyr a rheolwyr ddefnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau cytbwys er mwyn gwneud y gorau o'r gwerth a grëir ganddynt. Mae'r prosesau hyn yn helpu perchnogion i ddwyn rheolwyr i gyfrif, a sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau - system sy'n gweithio'n dra effeithiol.

Ond beth am y sefydliadau hynny sy'n dymuno creu gwerth arall, ar wahân i werth ariannol? Sut maent yn gwneud penderfyniadau sy'n creu'r effaith mwyaf - nid ar gyfer cyfranddalwyr y tro hwn, ond rhanddeiliaid - yr unigolion, y teuluoedd, a'r cymunedau? Wel, yn anffodus, yr ateb yw nad wyf yn meddwl bod llawer ohonynt yn gallu gwneud hynny, hyd yma. Gyda'r bwriad gorau yn y byd, heb y wybodaeth angenrheidiol, mae cyfyngiad ar ein gallu i wneud penderfyniadau sy'n gallu gwneud y gorau o'r gwerth ar gyfer y bobl sydd bwysicaf i ni.

Dyna pam mae Social Value UK yn credu y dylem gynnwys pobl er mwyn mesur newidiadau i'w bywydau, y rheiny y dywedant wrthym sy'n bwysig. Drwy ddilyn set o egwyddorion allweddol, gallwn wneud hyn mewn modd sy'n darparu gwybodaeth ystyrlon am effeithiau ein penderfyniadau a'n gwaith. Ond, ac mae hyn yn bwysig iawn, nid dim ond mesur y gwerth a grëir sydd dan sylw yma - dylai canlyniadau mesur fod yn fan cychwyn sgwrs bob amser, yn hytrach na'r diwedd. Mae nifer gynyddol o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector o amgylch y byd yn cydnabod mai'r hyn sy'n allweddol i wneud gwelliannau i fywydau pobl yw'r defnydd o ddulliau mesur gwerth cymdeithasol i reoli ac, yn y diwedd, i wneud y gorau o'r gwerth cymdeithasol a grëir gennym.

Yng Nghymru, ceir peth o'r ddeddfwriaeth fwyaf arloesol yn y byd, ac mae hyn yn creu'r potensial i newid y modd y mae'r penderfyniadau a wneir yn effeithio ar bobl. Rydym oll yn ymwybodol iawn o'r pwysau eithriadol sydd ar lawer o bobl a sefydliadau, ac mae hyn yn golygu bod rhaid i ni wneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym; ac yn allweddol i hyn y mae defnyddio gwerth cymdeithasol i lywio'r modd yr ydym yn gwneud pethau.

I wneud y gorau o fframwaith deddfwriaethol mor addawol, un ag iddo bobl a datblygu cynaliadwy yn graidd iddo, mae angen i'r sectorau llywodraeth, busnes, cyhoeddus a sifil, ynghyd â chymunedau ac unigolion, fod yn rhan o'r broses benderfynu. Rydym yn gwybod bod gwerth cymdeithasol yn rhan hanfodol o'r broses, ac edrychwn ymlaen at weld Cymru'n dangos i weddill y byd sut y gellir ei gyflawni.

JEREMY NICHOLLS,
Prif Weithredwr
Social Value UK a
Social Value
International

SOCIAL VALUE UK

SOCIAL VALUE CYMRU

Social Value Cymru • Mantell Gwynedd

e-bost: eleri@mantellgwynedd.com ffôn: 01286 672626

www.mantellgwynedd.com @ValueCymru

SOCIAL VALUE CYMRU

Mae Social Value Cymru yn ran o Mantell Gwynedd, sef Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngwynedd. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r trydydd sector ac arddangos pwysigrwydd gwerth cymdeithasol. Credwn bod gwerth cymdeithasol yn allweddol i greu penderfyniadau a all wella bywydau pobl – ac eithrio pa sector yr ydym yn gweithio ynddo.

Cyflwyniad – pwrpas yr adroddiad hwn

Mae pwrpas sylfaenol y ddeddf yn gofyn i sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector weithio'n wahanol, ac i wneud hynny mae angen i ni feddwl beth yw'r pethau pwysig sydd angen eu mesur a'u rheoli. Dim ond trwy ddeall gwerth cymdeithasol gweithgareddau y gallwn yn wir fynd ati'n effeithiol i weithio tuag at reoli'r modd yr ydym yn creu llesiant, ac mae'n hanfodol o ran gwireddu bwriadau'r Ddeddf.

Hanfodion y Ddeddf

Mae sawl ffynhonnell yn darparu gwybodaeth fanwl am y Ddeddf, ac nid bwriad yr adroddiad hwn yw ailadrodd hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig amlinellu gofynion allweddol y Ddeddf sy'n ceisio gwella 'llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru'.[1]
Mae'r Ddeddf yn gofyn i Gyrff Cyhoeddus feddwl a gweithio'n wahanol, gydag egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd pob penderfyniad a gweithred. Mae'r uchelgais hwn yn golygu hefyd bod sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag unigolion a chymunedau, yn gallu cyfrannu at yr agenda newydd. Bellach, drwy gyfraith, mae gofyn i Gyrff Cyhoeddus wneud pethau'n wahanol drwy'r pum modd allweddol a restrir isod[2]:

- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol a hirdymor i'r dyfodol;
- Deall effaith integredig penderfyniadau;
- Cynnwys y bobl a wasanaethir;
- Cydweithio i ganfod datrysiadau cyffredin;
- Mynd ati'n weithredol i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Nodau Llesiant

Yn sail i'r angen i weithredu'n wahanol ceir 7 nod llesiant, sef y glasbrint ar gyfer gweledigaeth a rennir o ran y math o Gymru y mae ar bobl ei heisiau. Rhaid i Gyrff Cyhoeddus weithio tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, ac mae'n bwysig iddynt nodi a chyhoeddi eu hamcanion, a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.

Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael gwir effaith

Yn ddiamau, mae'r ddeddfwriaeth Gymreig newydd ymhlith y mwyaf blaengar yn y byd, ac mae'n adeiladu ar etifeddiaeth a chanddi ddatblygu cynaliadwy wrth wraidd syniadau blaengar. Fel y dywed y Cenhedloedd Unedig: **'Yr hyn mae Cymru'n ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory**.'
Felly, sut all y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau feddwl mwy am y darlun hirdymor, ynghyd â gweithio hefo pobl mewn modd mwy effeithiol a chydweithio i atal materion rhag codi? Un o'r pethau allweddol i'w hystyried yw beth sydd angen ei fesur nawr er mwyn deall faint rydym yn ei gyfrannu at y nodau llesiant. Heb fynd ati'n gyntaf i fesur sut hwyl rydym yn ei chael ar bethau, rydym wedi ein cyfyngu'n arw o ran y newidiadau y gellir eu gwneud i greu gwelliannau ym mywydau'r bobl hynny sy'n cyfrif.

1 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion. http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf
2 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/future-generations-act-video/?lang=en

Mae hyn yn golygu, yn ogystal â mesur pethau sydd wedi'u mesur erioed, fel costau ariannol a niferoedd y bobl sy'n derbyn gwasanaethau neu gymorth, mae'n rhaid i ni hefyd fesur pethau eraill, fel sut y mae ein gwaith wedi lleihau unigrwydd rhywun h n, wedi cryfhau hyder rhiant, neu wella iechyd meddwl rhywun sy'n dioddef camdriniaeth.

Yn iaith gwerthuso, rydym yn siarad am yr angen i fesur deilliannau yn hytrach na dim ond allbynnau. Mae hwn yn bwynt pwysig, ac yn un y dylid ei lawn ystyried. Meddyliwch am hyn o safbwynt iechyd: ai diddordeb mewn dim ond allbynnau sydd gennym o ran nifer y cleifion a welir, neu'r canlyniadau o ran faint o bobl sy'n gwella o salwch, neu hyd yn oed sut y mae pethau'n cael eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf? Ymddengys fod yr ateb yn amlwg, ond os edrychwn ar yr hyn a fesurwyd yn draddodiadol, gallwn weld sylw cyson ar allbynnau, sef testun sylw sydd wedi arwain at ystod o ganlyniadau negyddol sy'n effeithio iechyd a llesiant cleifion, yn ogystal â chostio mwy i'r awdurdodau iechyd eu hunain yn y pen draw. Peidiwch â chymryd fy ngair i, meddyliwch am y mater o ran targedau amser disgwyl adrannau damweiniau ac achosion brys, sy'n golygu bod cleifion yn gorfod cael eu dal mewn ambiwlansys, neu fod pobl eiddil oedrannus yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb drefniadau ôl-ofal priodol yn eu lle, sy'n arwain at ddirywiad mewn iechyd a gorfod eu hanfon yn ôl i'r ysbyty.

Os nad ydym yn mesur y pethau sy'n cyfrif, a dim ond yn canolbwyntio ar y pethau sy'n haws i'w mesur, ni allwn fyth fod â gobaith sicr o allu gwella pethau rhyw lawer, a bydd uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn ddim ond hynny, yn uchelgais.

Gwerth Cymdeithasol

Gall pobl ddehongli gwerth cymdeithasol yn wahanol, ond wrth wraidd y syniad, mae'n ymwneud â deall **beth sydd wedi newid ym mywyd rhywun o ganlyniad i weithgareddau penodol, a rhoi gwerth i'r newidiadau hynny**. Yn seiliedig ar 7 egwyddor, mae gwerth cymdeithasol yn caniatau i ni drafod canlyniadau ein gwaith yn yr un iaith â chostau eu cynhyrchu. Drwy amcangyfrif gwerth ariannol newidiadau yn lefelau llesiant pobl, caiff penderfynwyr wybodaeth fwy cyflawn am effeithiau pwysig eu penderfyniadau, ynghyd â gwerth cymharol gwahanol ganlyniadau i ystod o randdeiliaid. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i gymharu deilliannau i'r un rhanddeilwr, ac hefyd cost ei creu – sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau i gynyddu effaith bositif ein gwaith. Yn bwysig, nid yw'n golygu bod rhaid i ni ddefnyddio technegau trylwyr tra gwyddonol; ond yr hyn y mae'n ei wneud yn y pen draw yw cynyddu'r tebygolrwydd o wneud penderfyniadau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol bosib, o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.

7 Egwyddor Gwerth Cymdeithasol yw:
Ceir rhagor o fanylion am yr Egwyddorion gan

1. **Cynnwys rhanddeiliaid;**
2. **Deall beth sy'n newid;**
3. **Gwerthfawrogi'r pethau sy'n cyfrif;**
4. **Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol;**
5. **Peidiwch â hawlio gormod;**
6. **Byddwch yn dryloyw;**
7. **Gwiriwch y canlyniad.**

Social Value UK3, ond gobeithir mai'r hyn sy'n glir yw'r tebygrwydd i ofynion y Ddeddf newydd. O'r cychwyn cyntaf, mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys er mwyn egluro'r hyn sydd wedi newid iddynt hwy – sy'n golygu eu bod yn gallu mynegi yn eu geiriau eu hunain pa elfennau o'u llesiant sydd wedi newid. Mae hyn yn gyfle i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan weithgareddau gael llais, ac mae'n mynd i'r afael â gofynion y Ddeddf o ran 'cynnwys y bobl sy'n cael eu gwasanaethu' a 'deall effaith integredig penderfyniadau'. Mae hyn yn symud i ffwrdd o ddiwylliant lle mae'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n gwneud hynny heb wybodaeth gyflawn am effeithiau eu penderfyniadau. Mae'r Ddeddf ac Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol yn mynnu bod lleisiau'r rheiny a effeithir yn cael eu clywed, bod y bobl berthnasol yn gwrando

3 http://www.socialvalueuk.org/why-social-value/the-principles-of-social-value/

ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.

Drwy ymestyn terfynau atebolrwydd i gynnwys canlyniadau bwriadol ac anfwriadol ein gwaith, yr agweddau cadarnhaol a negyddol, gallwn fynd ati'n well i 'sicrhau bod gan benderfyniadau effaith gadarnhaol a hirdymor i'r dyfodol,' a lle mae'r gwaith yn ataliol o ran natur, gallwn 'weithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.' Mae ymestyn sut yr ydym yn ystyried atebolrwydd i sefyllfa sy'n gwerthfawrogi effeithiau integredig, ac sy'n rhoi ystyriaeth benodol i'r darlun tymor hir, yn golygu y gall pobl a sefydliadau ddeall yn well sut y gallant gyd-greu (neu ddinistrio) gwerth llesiant. Mae gwneud hynny hefyd yn golygu y gallwn ystyried llesiant o safbwynt sy'n gwerthfawrogi'r rôl a chwaraewn mewn partneriaeth ag eraill. Mae'n annhebygol iawn ein bod yn creu gwerth ar ein pennau ein hunain, a thrwy ddeall sut y mae ein gwaith yn cael ei ategu gan eraill, neu hyd yn oed lle gall eraill wneud pethau'n well na ni, gallwn wneud penderfyniadau ar y cyd o ran sut i ddyrannu adnoddau i hybu gwerth cymdeithasol / llesiant y rheiny sy'n cyfrif, i'r eithaf.

Sylwadau Terfynol

Mae hyn oll yn swnio'n dda mewn theori – gallwn weithio gyda'n gilydd, cynnwys y bobl sy'n cyfrif, gallwn ddeall y modd y mae ein gwaith yn creu gwerth i bobl sy'n cyfrannu tuag at nodau llesiant y Ddeddf, gallwn hyd yn oed wella a gwneud ein gwaith mor effeithiol â phosibl, ond beth am y pethau sy'n ein hatal rhag gwneud hyn? Ydy, mae'n wir y gall fod mwy o gostau tymor byr o ganlyniad i wneud pethau'n wahanol, ond gadewch i mi ofyn dau gwestiwn i chi:

1. A fyddech yn hoffi gwybod pe gallech greu mwy o werth cadarnhaol a hirdymor ar gyfer unigolion, cymunedau a sefydliadau?
2. Sut ydych yn gwybod bod yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd yn well neu'n fwy effeithlon nag ymagwedd arall sy'n seiliedig ar fesur gwerth cymdeithasol a llesiant?

Yr hyn y mae gwerth cymdeithasol yn caniatáu i ni ei wneud yw gwerthfawrogi'r gwerth y mae pobl yn ei roi i wahanol elfennau o'u llesiant. Drwy wneud hynny, rydym yn deall yn well sut i greu a hybu llesiant drwy ein gweithgareddau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyfle i'r rheiny sy'n gyfrifol am fuddiant cyhoeddus wneud penderfyniadau sy'n rhoi pobl a'u llesiant wrth wraidd yr hyn y maent yn ei wneud, gyda'r weledigaeth **i wneud penderfyniadau ar gyfer gwella yfory**. Ond i wneud hynny, mae arnom angen iaith y gallwn wneud synnwyr ohoni, ac un sy'n caniatáu i ni wella a hybu llesiant i'r eithaf. Gwerth cymdeithasol yw'r iaith a all helpu **i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer gwella yfory**, ac i wireddu uchelgais y Ddeddf, ynghyd â helpu i greu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Cymru.

Dr ADAM RICHARDS,
Social Value Cymru @ Mantell Gwynedd

Beddgelert© APCE/SNPA

Sut mae deilliannau o'n gweithgareddau yn berthnasol i'r nodau lleisant cenedlaethol

Nid yw'n fwriad i'r ddwy enghraifft fras isod ddarparu rhestr gyflawn – nid ydynt ond yn ddetholiad bach o'r canlyniadau posibl y gall pob enghraifft eu darparu, a'u bwriad yw sbarduno trafodaeth bellach.

Astudiaeth achos – Cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc

Cydnabyddir yn gyffredinol bod gwirfoddoli yn darparu buddiannau pwysig i wirfoddolwyr, fel lledaenu rhwydweithiau cymdeithasol, dysgu sgiliau newydd, rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, a rhannu profiadau ag eraill (gweler, er enghraifft https://www.volunteering-wales.net/why-volunteer/). O ran pobl ifanc, gall hyn arwain at ennill sgiliau a phrofiadau a fydd ganddynt am oes, a chael effaith yr un mor sylweddol ar bobl a sefydliadau eraill.



Astudiaeth achos – Effaith y celfyddydau

Nid yw'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol bob amser yn cael eu cydnabod am eu heffaith bwysig ar fywydau pobl. Fodd bynnag, ceir cryn dystiolaeth y gall y diwydiannau hyn helpu i greu effeithiau gwirioneddol i bobl mewn meysydd hanfodol fel buddiannau economaidd uniongyrchol, drwy gyflogi pobl, ynghyd ag incwm drwy dwristiaeth, tra hefyd yn gwella effeithiau cymdeithasol, iechyd a llesiant a rhai addysgol ar y rheiny sy'n cymryd rhan (gweler enghraifft Cyngor Celfyddydau Lloegr (2014), 'The value of arts and culture to people and society').